Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor — Cysylltiadau Cymru ac Iwerddon

Diolch am gopi o'ch adroddiad diweddar. Mae Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) yn elfen bwysig o waith rhyng-seneddol y Senedd, sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan Aelodau o bob plaid. Fel Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, rwy'n gefnogol i'r gwaith hwn i'r perwyl bod yr Aelodau sy'n cymryd rhan, ac ymhellach, y Senedd gyfan, yn elwa o'r strwythur gwleidyddol hwn.

Rwy'n nodi argymhelliad rhif 15, sy'n ymwneud â gwaith y Senedd, ac yn gofyn am farn gan y Comisiwn ar y cynnydd posibl yn nifer y pwyllgorau BIPA, ystyriaethau ar gynyddu nifer cynrychiolwyr y Senedd a llenwi'r sedd wag.

Er fy mod yn dymuno cefnogi gweithgarwch BIPA cymaint â phosibl, materion i'r Senedd ystyried yn y pen draw, yw elfennau megis strwythurau BIPA, gan gynnwys unrhyw gynnydd ym maint dirprwyaeth y Senedd. Yn yr un modd, gwneir enwebiadau i'r ddirprwyaeth BIPA gan y grwpiau gwleidyddol ac, yn unol â rheolau BIPA, maent yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd. Rwy'n ymwybodol bod swyddogion y Comisiwn wedi tynnu sylw cynrychiolwyr BIPA enwebedig y Senedd at yr argymhelliad penodol, yn ogystal â'r materion ehangach a godwyd yn yr adroddiad. Tybiaf y byddant yn dymuno ymateb eu hunain i'r Pwyllgor.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Mae'r Comisiwn yn darparu adnoddau uniongyrchol i BIPA drwy cefnogi cynrychiolaeth y Senedd yng nghyfarfodydd llawn BIPA a phresenoldeb ar is-bwyllgorau BIPA. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys ariannu costau teithio Aelodau, a darparu ymchwil a chymorth gweinyddol i'r Aelodau sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau BIPA. O'r herwydd, mae BIPA yn elfen allweddol wrth gyflawni Fframwaith Rhyngwladol Comisiwn y Senedd, sy'n darparu atebolrwydd, eglurder a chyfeiriad i'r gweithgaredd seneddol rhyngwladol a adlewyrchir gan Gomisiwn y Senedd. Mae'n sylfaen ar gyfer trefnu a blaenoriaethau ar gyfer y cymorth a ddarperir. Mae un o egwyddorion y fframwaith yn nodi:

> *"y bydd ein gweithgareddau rhyngwladol:*
>
> *1. Yn canolbwyntio ar fusnes y Senedd, gan alluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, drwy wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad;"*

Fel y mae'r adroddiad hwn yn amlygu, BIPA yw un fforwm ar gyfer ymgysylltiad dwyochrog rhwng Cymru ac Iwerddon, ond yn wir mae dulliau eraill y gall y Senedd a'i strwythurau gwleidyddol eu gweithredu er mwyn hyrwyddo cysylltiadau dwyochrog, ac mae Fframwaith Rhyngwladol y Comisiwn yn hwyluso'r gwaith hwnnw.

Gall unrhyw gynnydd yng ngweithgareddau BIPA arwain at oblygiadau adnoddau. Gan gydnabod pwysigrwydd BIPA, fe fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw oblygiadau a ddaw o unrhyw trafodaethau perthnasol fel rhan o'i gynllunio busnes a chyllideb, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol, yng ngoleuni'r ymrwymiadau yn y Fframwaith Rhyngwladol.

Yn gywir

Elin Jones

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English